

NEWYDDION YSGOL BETHEL

Gorffennaf 2012

NEWYDDION

Gwefan Ysgol wedi ei lansio!

Mae'r wefan ysgol bellach wedi ei chyhoeddi ac yn fyw. Cafwyd Noson Lansio i deuluoedd ar Orffennaf 9ed dan ofal Ffrindiau Ysgol Bethel. Ewch ar y wefan am holl newyddion a lluniau diweddaraf yr ysgol ar www.ysgolbethel.org

Gwobr Treftadaeth Cymru

Bu dosbarth Elidir yn llwyddiannus yn eu cais am Wobr Treftadaeth Cymru, gan ennill £100 am eu cyflwyniad ffilm ar Amgueddfa Lechi Llanberis. Diolch i'r plant am eu profesiynoldeb ac i Mr Parry am ymgymryd â'r gwaith.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cynhaliwyd Diwrnod Ffrengig llwyddiannus iawn, gyda gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal ym mhob dosbarth a phob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu rhywfaint o Ffrangeg! Cafwyd cinio Ffrengig bendigedig, diolch i'n chef Cordon Bleu, anti Carys! Diolch hefyd i Cecile Roberts, (mam Dylan ac Owain), sydd ei hun yn Ffrances, am ddod i mewn i gynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion. Roedd y digwyddiad yn hwb mawr i ymwybyddiaeth y disgyblion o iethoedd a diwyllianau eraill ac yn gam arall tuag at ennill Gwobr Aur Ysgolion Rhyngwladol.

Ysgol Werdd

Mae'r ysgol wedi cyflwyno portffolio ar gyfer achrediad tuag at Medal Aur Ysgolion Gwyrdd. Diolch i Miss Wendy Hebenstreit am ei goladau.

Fel rhan o'n cyswllt ag Antur Waunfawr, mae bin ail-gylchu dillad wedi ei osod wrth fyneddiad yr ysgol, felly dewch â'ch hen dillad i'w hailgylchu ac fe fydd yr ysgol yn elwa hefyd!

Mae gardd yr ysgol yn ffynnu – diolch i dai llwyrthlon Y Fachell! Diolch i Aled Jones, (tad Efan, Bedwyr ac Elis) am baratoi'r tir i ni. Erbyn hyn mae gennym datws, nionod, pys, mafon a chyrens duon yn tyfu. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Steve Williams, (tad Sam a Millie) am godi'r ffens i ni yn rhad ac am ddim ac am paratoi mwy o wâu i'n galluogi ddatblygu'r ardd ymhellach y flwyddyn nesaf.

Y Cyngor Ysgol

Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur unwaith eto'r tymor hwn. Ymysg yr hyn a drafodwyd ganddynt oedd gweithgareddau Mentegargwch a threfniadau gwerthu cynnyrch yn y Mabolgampau, a phenderfynu ar daih diwedd blwyddyn.

Diogelwch y Ffordd

Lluniodd Swyddogion Diogelwch y Ffordd, Gwennllian Griffiths B5 a Gethin Jones B6, gystadlaeuath ar gyfer y disgyblion a oedd yn cynnwys cofnodi arwyddion ffyrdd yn y pentref. Maent i'w canmol am gymryd eu dyletswyddau o ddifrif. Enillwyd y gystadlaeuath oedd: Babanod: Bryn Hughes Adran lau: Ben Evans.

Ymwybyddiaeth iaith

Mae'r Cynllun Rwti-pwts wedi ei roi ar waith yn yr ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar godi safonau iaith lafar y disgyblion trwy ddileu geiriau Saesneg a bratiail ac mae'n seiliedig ar gywiro ein gilydd. Hyd yma, mae'r cynllun yn gweithio yn dda a'r disgyblion a'r staff yn llawer mwy ymwybodol o ansawdd yr iaith a ddefnyddiant.

Disgyblion yn meddwl

Cynhaliodd yr Adran lau wythnos TASC, (Thinking Actively in a Social Context) yn ystod y tymor a chynhaliwyd gweithgaredd Mentegargwch ym mhob dosbarth, sydd yn annog y disgyblion i feddwl yn entrepreneuriaidd. Gwerthwyd cynnyrch y Mentegargwch ym Mabolgampau'r ysgol a chafod y disgyblion fudd mawr o'r weithgaredd. Gwylia dy hun Alan Sugar!

Pwll dwr

Bu B4 wrthi'n brysur iawn yn gweithio ar eu prosiect Pwll Dwr. Maent wedi cynllunio'r ardal ar gyfer y pwll a phenderfynu ar blanhigion i'w plannu er mwyn denu bywyd gwyllt. Hwy sydd hefyd wedi cynllunio'r gwariant ac wedi cyllidol'r prosiect trwy eu gweithgareddau codi arian ac maent i'w llongyfarch am godi £325. Da iawn chi blant! Diolch i Mr

Gwyn Elwyn am baratoi'r pwll a gosod y ffens sydd o'i amgylch ac i Mrs Elwyn am arwain y fenter. Mae'r ysgol wedi dilyn y canllawiau diogelwch priodol ar gyfer pylau dwr mewn ysgolion.

GWEITHGAREDDAU

Un o binaclau'r flwyddyn oedd perfformiad i'r disgyblion gan y gantores bop, Elin Fflur. Treuliodd brynhawn yn yr ysgol yn diddanu a llofnodi lluniau ac roedd pawb wedi eu swyno ganddi. Mae gweithgareddau fel hyn yn hwb diddordeb y disgyblion mewn diwylliant Cymraeg. Diolch i Sara Dylan, ysgrifenyddes y Cyngor ysgol ac i Callum O'Donnell am wneud y trefniadau. Cafodd Callum glamp o sws gan Elin Fflur yn wobwr am ei ymdrech!

Unwaith eto bu disgyblion hynaf yr ysgol ar ymweliad preswyl i Gaerdydd. Bu B 5&6, ynghyd â Mr Parry, Mrs Guillemin, Mrs Joyce Gaffey a Miss Allana Evans yn aros yng Nghanolfan yr Urd. Cafodd y disgyblion brofiadau bendigedig, gan gynnwys ymweliadau â Phwll Mawr, Sain Flagan, Stadiwm y Mileniwm a Techniquet. Cafwyd nosweithiau hwyliog hefyd yn nofio a mynd i'r pictiws. Roedd ymddygiad y plant yn eithriadol o dda yn ystod yr holl amser ac roedd yn fraint cael treulio'r amser yn eu cwmni. Roeddent yn glod i'r ysgol, i'w teuluoedd ac iddynt eu hunain. Diolch i Mr Parry ac i Mrs Sasha Alcock am drefnu'r ymweliad.

Bu Mr Parry a rhai o ddisgyblion dosbarth Elidir mewn cyfarfod yn Amgueddfa Lechi Llanberis i lansio ffyrwyd y prosiect TGCh/Hanes a wnaethpwyd ar y cyd â'r Amgueddfa, Ysgolion Cynradd y Dalgylch a Cynnal. Bydd gwaith ffirio'r disgyblion i'w weld ar safwe'r amgueddfa yn fuan yn y dyfodol.

Cafodd B2 gyfres o wersi Diogelwch y Ffordd, Kerb-Kraft. Diolch i'r mamau a fu'n cynorthwyo, sef Mrs Pauline Todd, (mam Joe) a Mrs Jennifer Williams, (mam Millie a Sam) am gynorthwyo gyda'r gwersi yn ffyddlon.

Bu'r Adran lau ar ymweliad addysgol i Mynydd Gwefru yn dilyn eu gwaith ar drydan.

Aeth B 3&4 i Barc Glynllifon i wneud gwaith maes ar gynefinoedd.

Bu cynrychiolydd o Trefi Taclus yn trafod y broblem o faw ci gyda'r disgyblion. Gosodwyd cystadlaeuath i greu poster i atal hyn. Beirniadwyd y gystadlaeuath gan Y Cyng. Siôn Jones a'r enillwyr oedd: B1 D/1/2 1af - Cadi Lloyd-Shipton B1 3/4 1af - Siôn Lewis Jones B1 5/6 1af - Sara Dylan Williams

Bydd y goreuon yn cael eu hargraflu a'u harddangos o amgylch y pentref.

Bu B3 yn ymweld â Chapel Cysegr, lle cawsant sgwrs gan Y Parchedig Marcus Robinson. Cafwyd beddydd a phriodas yn ystod yr ymweliad! Diolch i'r Parchedig Marcus am fod mor barod i gyfrannu.

Daeth Y Cyngorydd Siôn Jones i'r ysgol i gyflwyno ei hun i'r plant ac i sôn am ei ddyletswyddau fel cyngorydd.

Roedd cryn gynnwrf yn y ffreutur pan arhosodd y dosbarth Meithrin i ginio! Bwytaodd pob un lond ei fol o ginio blasus Anti Carys! Bu'r Cylch Meithrin hefyd yn treulio'r prynhawn yn yr ysgol er mwyn cael blas ar yr hyn sydd o'u blaenau ym mis Medi a braf oedd gweld amryw ohonynt yn awyddus i gael dod yn ôl y diwrnod wedyn!

Gwell fyddai peidio sôn am y trip diwedd blwyddyn!! Cafodd y tywydd y llaw uchaf arnom ac er fod y plant wrth eu boddau'n stopian yn y glaw, penderfynwyd mai mynd yn ôl i'r ysgol yn gynnar fyddai orau. O na fyddwn yn broffwyd!

Cafodd y dosbarth Meithrin well lwc ar eu trip hwy i'r Ganolfan Hamdden am sesiwn Campau Cynnar a phicnic.

Cynhaliwyd gwasanaeth diwedd blwyddyn

i rieni yn ôl yr arfer yng Nghapel Cysegr. Teg yw dweud fod y dosbarth Meithrin wedi ennill y wobwr am y perfformiad mwyaf brwdfrydig a hyderus!

Unwaith eto, roedd Sioe Ffarwel Blwyddyn 6 yn gymysg o chwerthin a dagrau. Yn unol â dymuniad y disgyblion, bu newid i'r drefn wobrwyo cyrhaeddiad ac yn hytrach, fe roddwyd gwobr i bob disgybl am rinwedd sydd yn arbennig iddo fo/hi. Cyflwynwyd gwobr ychwanegol, er cof am y Prifardd Selwyn Griffith, i'r disgybl sydd yn gloywi mewn Cymraeg a'r enillwyd eleni oedd Efan Jones. Hoffai bob un ohonon ddymunio'r gorau i'r 12 disgybl fydd yn trosglyddo i Ysgol Brynrefail ar ôl yr haf. Mae wedi bod yn bleser cael pob un ohonynt yn Ysgol Bethel a bydd chwith garw ar eu holau.

YR URDD

Bu Mrs Guillemin a Mrs Manon Thomas, (mam Erwan), yn hyfforddi'r Côr Adran ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urd. Er na ddaeth y côr i'r brig, roedd y plant i'w canmol am gyrraedd safon uchel. Diolch iddynt am fod yn ffyddlon i'r ymarferion ar ôl ysgol ac am wneud eu gorau glas fel arfer.

Llongyfarchiadau i Owain Llestyn Thomas a ddaeth yn fuddugol yn y gystadlaeuath Offeryn Chwyth ac i grwp dawnsio Angylion Kelly am ddod yn drydydd yn eu cystadlaeuath.

Cafodd rhai o ddisgyblion B5&6 fudd mawr hefyd o berfformio yn Sioe Gerdd ysgolion Cynradd Eryri.

CHWARAEON

Er gwaethaf y cawodydd, llwyddwyd i gynnal Mabolgampau eto eleni. Llongyfarchiadau i'r disgyblion am eu hymdrech a'u llwyddiant ac i'r disgyblion canlynol am eu llwyddiant arbennig yn ennill tlysau'r Victor Ludorum: Bechgyn yr Adran lau: Nathan Hughes Genethod yr Adran lau: Ffion Jones Bechgyn y Babanod: Cai Moss Genethod y Babanod: Erin Roberts

Mae Clwb Chwaraeon Bethel bellach ar ei draed, gyda sesiynau blasu wedi eu chynnal gan swyddogion PESS a gwirfoddolwyr o blith y rhieni a'r gymuned. Siomedig fu'r ymateb a bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhieni ym Medi er mwyn canfod os bydd mwy o blant yn dymuno mynychu.

Cafodd B3 wersi nofio a tenis y tymor hwn a chafodd B1 flas ar wersi nofio yn ystod ail hanner y tymor. Cafodd Blwyddyn 3 a'r sgwad tenis wersi tenis.

Cafodd B4 wersi Diogelwch yn y Dwr yn y Ganolfan Hamdden.

Llongyfarchiadau i'r timau tenis am eu llwyddiant canlynol yn Nhrnamaint Tenis Arfon:

Genethod Coch	(B3)	- 1af
Bechgyn Coch	(B3)	- 1af
Bechgyn Oren A	(B4/5)	- 1af
Bechgyn Oren B	(B4/5)	- 2il
Genethod Gwyrdd	(B6)	- 1af
Bechgyn Gwyrdd	(B6)	- 2il

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau ar eu llwyddiant yn rownd drefynol y gystadlaeuath yn erbyn ysgolion Gogledd Cymru: Genethod Coch - 2il Bechgyn Coch - 3ydd Bechgyn Oren - 3ydd

Cymerodd nifer o'r disgyblion ran yn y Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol a chynhaliwyd sesiynau pêl-droed, Kick-It, llwyddiannus iawn.

Cwblhaodd disgyblion B6 achrediad nofio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

STAFFIO

Braf iawn yw croesawu Mrs Nia Gwawr Elwyn, athrawes B4 yn ôl i'w gwaith yn dilyn cyfnod Mamolaeth. Bydd Mrs Michelle Johnson-Jones, cymhorthydd AAA hefyd yn dychwelyd i'w gwaith ar ddiwedd y tymor hwn yn dilyn cyfnod mamolaeth.

Dymunwn bob lwc i Miss Sharon Jones, athrawes B1&2, a fydd yn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth ddechrau Tymor yr Hydref. Bydd Miss Sioned Roberts, (sydd

eisoes wedi cyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth Miss Wendy Hebenstreit y llynedd), yn cyflenwi yn nosbarth Miss Jones. Mae'r disgyblion yn hoff iawn o Miss Roberts a bydd yn braf iddynt gael gweld wyneb cyfarwydd yn aros amdanant ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Miss Donna Griffiths, athrawes B3 ar enedigaeth merch fach, Ana Fflur ac i Miss Nia Thomas (Cymhorthydd Meithrin) ar enedigaeth Lea Wyn. Croesawu Miss Ffion Hughes, sydd yn cyflenwi yn B3 yn ystod absenoldeb mamolaeth Miss Griffith. Mae Miss Sian Hughes, sydd wedi bod dan hyfforddiant yn yr ysgol am ddwy flynedd, yn cyflenwi yn lle Miss Nia.

Dymunwn ymdeoliad hapus i Mrs Brenda Jones, Cymhorthydd AAA. Diolch i Mrs Jones am ei chyfraniad i'r ysgol dros y blynnyddoedd.

Bydd Miss Mared Roberts, Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen, a Miss Greta Jams, cymhorthydd AAA, yn ein gadael ddiwedd y tymor hwn i ddilyn cwrs hyfforddi athrawon, TAR. Dymunwn pob llwyddiant iddynt yn eu gyrfa dewisol. Penodwyd Mrs Joyce Gaffey, sydd ar hyn o bryd yn gymhorthydd 1:1 yn yr ysgol, i swydd Miss Mared.

FFRINDIAU YSGOL BETHEL

Cynhaliwyd Ffair Haf, Miri Mai llwyddiannus a chodwyd elw arnyddedus o £1,149.49 a threuliodd dydd Sadwrn yn pacio bagiau ym Morrisons, gan wneud elw o £404.44.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r gymdeithas am ariannu'r wefan newydd. Mae'r gymdeithas hefyd wedi ariannu'r canlynol i'r ysgol yn ystod y tymor: - Meincia i'r buarth; byrddau picnic; talfunydd a chliniadur i'r neuadd.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r gymdeithas am eu gwaith caled ac i'r rhieni am gefnogi'r gweithgareddau a drefnir.

GWRFODDOLWYR

Parha ein gwirfoddolwyr i ddod i'n cefnogi yn yr ysgol. Diolch i Mr Gwerydd Griffiths, ein gwirfoddolwr darllen ffyddlon ac i'r 'genod gwau', Mrs Mary Evans, Mrs Valmai Owen a Mrs Betty Owen. Diolch i'r rhieni sydd bob amser yn barod i'n cynorthwyo gyda gweithgareddau, ymweliadau ayb.

Cais

Gofynnwn yn garedig i rieni beidio parcio ym maes parcio'r ysgol wrth ollwng eu plant yn y Clwb Brecwast gan fod hyn yn achosi trafferthion i staff sydd yn cyrraedd eu gwaith. Yn hytrach, a wnaiff bawb ddefnyddio'r man gollwng dros y ffordd i'r ysgol os gwelwch yn dda. Hoffwn eich atgoffa eto i beidio parcio yn yr arosfeydd bwisiau nac o flaen tai cymdogion. Diolch am eich cydweithrediad yn hyn.

Clwb Brecwast

Oriau'r Clwb Brecwast yw 7.55 – 8.30. A wnaiff rhieni beidio gyrru eu plant i'r ysgol cyn 7.55 os gwelwch yn dda.

DIOLCHADAU

Unwaith eto, wrth dynnu ad derfyn blwyddyn ysgol arall, hoffwn ddatgan fy niolch i staff yr ysgol am eu gwaith hynod o galed. Diolch i chi rieni am eich cefnogaeth bob amser. Ond mae fy niolch yn arbennig i'r plant. Mae plant Ysgol Bethel yn rhai arbennig iawn ac rydym oll yn cydweithio i sicrhau'r gorau iddynt. Gwyliau hapus i bob un ohonoch.

Bydd yr ysgol yn ail-agor i ddisgyblion ddydd Mawrth, Medi 4ydd 2012.



Cynhaliwyd gwasanaeth diwedd blwyddyn